



Hufen
Café
Ice Cream

GWYNEDD AC ERYRI 2035 NODYN BRIFFIO AR YR ECONOMI YMWELD

Rhif 4

Medi 2024






© Hawlfrant y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright. Visit Wales

1. Croeso

Croeso i'r pedwerydd nodyn briffio sy'n rhoi gwybodaeth am ddatblygiad Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035. Mae'r nodyn briffio hwn yn ymdrin â gwaith Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wrth ddatblygu'r cynllun economi ymweld cynaliadwy newydd gyda'n partneriaid.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y tri bwletin blaenorol yn [fan hyn](#).



Chwarel Llechwedd

© Hawffaint y Gorn, Cressio Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

2. Beth sydd wedi bod yn digwydd?


Yn y bwletin diwethaf, fe wnaethom egluro bod Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 wedi'i gwblhau gyda'r weledigaeth a ganlyn:

Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri.

Egwyddorion Economi Ymweld Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn fwy nac unrhyw anfanteision

Gallwch weld y Cynllun llawn yn [fan hyn](#).



Datblygiadau Castell Caernarfon

© Hafuriant y Gorn, Cress, Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Ers mabwysiadu'r Cynllun Strategol gan Cyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Chwefror 2023 fe lansiwyd Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog ar 25 Medi 2023.

Mae trafodaethau hefyd wedi parhau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch eu rhan yn y Cynllun ar gyfer ardaloedd Conwy wledig sy'n ran o Barc Cenedlaethol Eryri. Bellach mae cytundeb i ymrwymo i'r bartneriaeth a bydd memorandwm o ddealltwriaeth yn cael ei arwyddo rhwng y 3 partner sector cyhoeddus.

Yn dilyn lansiô'r Cynllun mae gwaith wedi bod yn digwydd i ddatblygu strwythur partneriaeth newydd er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu ac i fonitro cyflawni gwaith ac allbynnau.

Bu i'r Grŵp Sector Twristiaeth gyfarfod 2 waith yn barod yn ystod 2024 er mwyn bwydo gweithgareddau i'r Cynllun Gweithredu ac er mwyn ethol cadeiryddion. (Gweler 3. Strwythur y Bartneriaeth)

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 yn dilyn llawer o waith ymgynghori gan gynnwys:


- Y trafodaethau gafwyd wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol oedd yn adnabod y prif heriau a'r cyfleon i'r ardal yn deillio o'r economi ymweld gydag Aelodau, cymunedau, busnesau a phartneriaid.
- Trafodaethau gyda phartneriaid y sector cyhoeddus.
- Trafodaethau gyda'r Grŵp Sector Twristiaeth.
- Mewnbwn gan gydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Conwy.
- Ystyriaeth o flaenoriaethau adnabuwyd o fewn i Gynlluniau Ardal Ni.

Mae hon yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i datblygu fel y bydd angen. Cynllun Gweithredu ar gyfer y cyfnod 2024 – 2025 sydd ar waith ar hyn o bryd (Gweler 4. Cynllun Gwithredu am fwy o wybodaeth).

3. Strwythur y Bartneriaeth

Mae Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 yn cael ei gweinyddu mewn partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r llun isod yn darlunio strwythur y Bartneriaeth. Mae'r strwythur wedi ei addasu a'i symleiddio yn dilyn Bwletin Briffio 2 er mwyn ceisio adlewyrchu'r egwyddorion gweithredu o arweinyddiaeth strategol, gweithrediad effeithiol a pherchnogaeth eang:



Mae haen ychwanegol i'r strwythur uchod sy'n haen weithredol i gefnogi'r bartneriaeth a sicrhau perchnogaeth gan randdeiliaid ehangach a'r sector cyhoeddus.

Mae model y bartneriaeth yn ceisio adlewyrchu'r egwyddorion gweithredu trwy sefydlu:

- (a) Grŵp Sector Twristiaeth i sicrhau perchnogaeth eang.
- (b) Grŵp Gweithredu i fonitro a sicrhau gweithrediad.
- (c) Bwrdd Llywio i gynnig arweiniad strategol, cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ac i fod yn lais strategol ar gyfer yr holl economi ymweld.



Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn,
Arweinydd Cyngor Gwynedd

Mae'r Bwrdd Llywio'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Arweinydd Cyngor Gwynedd a Chadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mewn ymateb i sefydlu'r Bartneriaeth fe ddywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, Y Cyng. Dyfrig Siencyn:

“Mae sefydlu'r Bartneriaeth newydd ac arloesol hon yn garreg filltir bwysig i ni fel Cyngor a'n partner allweddol yn y Parc Cenedlaethol wrth i ni geisio sicrhau economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal.

“Rwy'n cydnabod bod trafodaethau wedi cymryd llawer o amser i gyrraedd y pwynt pwysig yma, ond rwy'n ffyddiog bod gennym bellach y cynllun strategol, y cynllun gweithredu a'r bartneriaeth orau i gyflawni'n llwyddiannus”.

Rhan arloesol o'r model newydd yw'r Grŵp Sector Twristiaeth. Mae'r Grŵp Sector Twristiaeth yn dwyn ynghyd y sector twristiaeth a'r sector cymunedol er mwyn adnabod blaenoriaethau a materion mae hefyd yn monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu.

Er mwyn sicrhau cydbwysedd a throsolwg cytbwys o'r economi ymweld, penderfynwyd ethol 2 gyd-gadeirydd a 2 gyd-is-gadeirydd i'r Grŵp - y naill o'r sector cymunedol a'r llall o'r sector busnes. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, etholwyd y canlynol:

- Cymunedol: Einir Young, Eco-Amgueddfa Llyn (Cyd-gadeirydd) a Ceri Cunnington, Cwmni Bro Ffestiniog, (Cyd-is-gadeirydd)
- Busnes: Michael Bewick, Greaves Cyf., Blaenau Ffestiniog (Cyd-gadeirydd) ac Annwen Jones, Bythynnod Gwyliau Tŷ'n Rhos, Criccieth (Cyd-is-gadeirydd)

Mae lleisiau'r cyd-gadeiryddion yn bresennol ym mhob elfen arall o strwythur y Bartneriaeth er mwyn sicrhau llais i'r diwydiant a'n cymunedau yn ein trafodaethau.

Dywedodd y Cyng. Edgar Owen, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

“Rydym wedi cydweithio law yn llaw efo Cyngor Gwynedd i ddatblygu'r Cynllun Strategol, y Cynllun Gweithredu ac i gynllunio'r Bartneriaeth newydd ac rydym yn falch o gyrraedd y cyfnod gweithredu yma ar ôl cymaint o drafod a chraffu.

“Rwy'n hynod falch o'r model partneriaeth newydd sydd wedi ei ddatblygu ac yn enwedig yr ymdrech i sicrhau cydbwysedd a llais i gymunedau a busnesau Gwynedd ac Eryri ar bob haen o'r strwythur gweithredu.

“Ar ran y Bwrdd Strategol fe hoffwn longyfarch Einir, Michael, Ceri ac Annwen ar eu hethol yn gyd-gadeiryddion a chyd-is-gadeiryddion ac edrychaf ymlaen at ein cydweithio.”



Y Cyngorydd Edgar Owen,
Cadeirydd Awdurdod Parc
Cenedlaethol Eryri



Einir Young, Cyd-Gadeirydd y Grŵp Sector Twristiaeth



Michael Bewick, Cyd-Gadeirydd y Grŵp Sector Twristiaeth

Gair gan Gyd-gadeiryddion y Grŵp Sector Twristiaeth

“Fel cyd-gadeiryddion y Grŵp Sector Twristiaeth mae hi’n fraint gennym gyflwyno ein hunain i chi fel cynrychiolwyr y sector busnes a chymunedol sy’n ran o Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035. Dewiswyd y cyd-gadeiryddion i gynrychioli’r ddau sector gan sicrhau bod busnes a chymuned yn gweithio gyda’i gilydd mewn partneriaeth.

Rydym yn llwyr gefnogol o’r bartneriaeth newydd sy’n datblygu yn ein hardal ac yn gobeithio y gwelwn ni ffrwyth gwaith y bartneriaeth dros y misoedd a’r blynnyddoedd nesaf wrth i ni symud i’r cyfnod gweithredu.

Mae gennym brofiad helaeth o’r maes economi ymweld, a’r ddau ohonom yn awyddus i gefnogi economi ymweld adfywiol a chynaliadwy yn ein hardal *er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri.*

I lwyddo yn ein gwaith ac i sicrhau’r economi ymweld wirioneddol adfywiol a chynaliadwy hwnnw yr ydym yn dymuno ei weld yn yr ardal, mae cael cynrychiolaeth eang a chytbwys yn mynd i fod yn hanfodol er mwyn i leisiau pawb gael eu clywed a’u gweithredu arnynt. Dyna pam mae’r gyd-gadeiryddiaeth yn elfen mor bwysig o’r bartneriaeth newydd gan ei bod yn symbol o ddod â lleisiau busnes a chymuned at ei gilydd yn cydweithio er budd pawb.

Edrychwn ymlaen at gydweithio efo chi wrth i ni fwrw ati i weithredu.”



© Hawfrant y Gorn Creso Cymru
© Crown Copyright Walk Wales

4. Y Cynllun Gweithredu

Y Cynllun yma fydd yn llywio ein blaenoriaethau a'n polisiau yn y maes Economi Ymweld hyd at 2035.

Bydd y Cynllun yn ran o Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd – Ardal Ni, a bydd hefyd yn dylanwadu ar flaenoriaethau buddsoddi Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 yn dilyn llawer o waith ymgynghori fel y nodwyd eisioes.

Mae copi o'r Cynllun Gweithredu 2024-25 i'w weld yn [fan hyn](#). Mae 3 thema penodol wedi eu hadnabod ar gyfer gweithredu gyda nifer o weithgareddau neu brosiectau yn cael eu cynnwys o fewn y thema:

- Ymchwil, Sgiliau a Datblygu
- Marchnata a Chyfathrebu
- Prosiectau Cyd-weithio

Mae'r Cynllun Gweithredu'n adnabod y canlynol:

- Yr egwyddor perthnasol o'r Cynllun Strategol
- Yr her neu'r cyfle adnabwyd wrth ymgynghori
- Yr weithred i ymateb
- Pwy sy'n arwain
- Yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu
- Amserlen
- Sut fydd effaith y weithred yn cael ei fesur.

Gyda Chynllun Gweithredu 2024-25 mae llawer o weithgareddau wedi eu cynllunio cyn i'r Cynllun Strategol gael ei fabwysiadu. Gydag amser, y bwriad fydd i'r Cynllun Strategol lywio a dylanwadu'n llawn ar y prosiectau fydd yn y Cynllun Gweithredu.



Llwybr yr Arfordir. Uwchmynydd, Penllyn

© Hawlfrith y Goron, Croeso Cymru
© Crown Copyright, Visit Wales

5. Monitro cynnydd a mesur effaith

Bydd cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu yn ran bwysig o strwythur newydd y bartneriaeth gyda disgwyl i'r Grŵp Sector Twristiaeth, y Grŵp Gweithredu a'r Bwrdd Llywio oll fonitro cynnydd yn eu cyfarfodydd.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnig amserlenni a deilliannau clir a chorff arweiniol fel bod modd monitro cynnydd gweithredu a chyflawni yn eu herbyn.

Yn draddodiadol mae effaith yr economi ymweld yn cael ei fesur ar sail STEAM (Scarborough Tourism Economic Assessment Monitor) sy'n canolbwyntio ar niferoedd a gwerth ymwelwyr i'r economi leol.

Tra bod cydnabyddiaeth bod hwn yn un dull o fonitro effaith, mae teimlad cryf bod angen i ni fod yn mesur effaith twristiaeth yn llawer mwy holistaidd ac yn gytbwys o ran yr egwyddorion sydd wedi eu cytuno arnynt gan edrych ar effeithiau amgylcheddol, cymunedol a ieithyddol yn ogystal.

Bu Grŵp Tasg Ymchwil yn gweithio yn y maes yma gan gyd-weithio gyda Uned Ymchwil Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau yn ogystal â Phrifysgol Bangor. Trafodwyd hefyd arfer da o ardaloedd eraill – yn benodol Denmarc a Slofenia.

Mae'r grŵp tasg yma wedi sefydlu 'dashfwrdd' fydd yn rhoi darlun mwy cytbwys i ni o effaith yr economi ymweld yn yr ardal. Er bod nifer o fesuryddion o fewn y 'dashfwrdd' y tu hwnt i reolaeth y partneriaid ac o bosib yn ehangach na'r economi ymweld ac ymwelwyr – mae'n declyn newydd y byddwn yn medru ei ddefnyddio i fonitro'r eco-system economi ymweld yn ehangach nac erioed o'r blaen.



© Hawlfrwyd y Geron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

6. Beth yw'r camau nesaf?

Gyda Phartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 bellach wedi sefydlu a'r Cynllun Gweithredu cyntaf wedi ei fabwysiadu, y camau nesaf fydd bwrw ati i weithredu, monitro ac adrodd ar gynnydd trwy'r haenau o fewn i'r Bartneriaeth.

Bydd gwaith hefyd yn parhau i ddatblygu'r dashfwrdd mesuryddion er mwyn monitro'r effaith ar yr economi ymweld.

Bwriedir cynnal cynhadledd flynyddol newydd Gwynedd ac Eryri 2035 yn ystod yr Gaeaf 2024-25 fydd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, trafod cynnydd ac hefyd amlygu arfer dda o ardaloedd eraill sy'n ceisio sefydlu economi ymweld cynaliadwy.

7. Trosolwg o rai o'r prosiectau sydd ar waith o'r Cynllun Gweithredu 2024-25

Yn y cynllun gweithredu mae rhestr o brosiectau sy'n cael eu rhoi ar waith ar draws y sector twristiaeth yng Ngwynedd ag Eryri ar gyfer 2024-25. Isod ceir rhagor o fanylion am rai o'r prosiectau a restrir yn y cynllun:-


Llwybr Llechi Eryri

O ganfod nad yw'r sector yn darparu'r holl gyfleusterau sydd eu hangen ar gerddwyr ac yr angen i wella'r Llwybr Llechi i ddod â'r Llwybr i fyny i safon y Llwybr Cenedlaethol mae gwaith ymchwil i'r cyfleusterau sydd ar gael ac anghenion cerddwyr yn cael ei gynnal sydd wedi'i ariannu drwy Grymuso Gwynedd. Bydd adroddiad cychwynol yn cael ei gyflwyno mis Medi 2024.



Ymgyrch 'Lleol i ni', Cynllun Diwylliant, Cronfa Ffyniant Cyffredin

Er mwyn datblygu mwy o gyfleoedd i ymwelwyr ddeall beth sydd yn arbennig am yr ardal a rhoi cyfle i ymwelwyr 'roi nôl' i'r ardal, mae'r ymgyrch 'Lleol i Ni' yn creu a hyrwyddo profiadau lleol i'r ardal hon. Y nod yw i gynyddu ymwybyddiaeth o'n treftadaeth, diwylliant ac iaith unigryw, tirwedd leol, cynnyrch a chymunedau, yn ogystal a chynyddu gwariant ac ymestyn y tymor.



Prosiect Oriol Gelf Gyfoes

Mae Storiel ac Oriol Plas Glyn y Weddw wedi'u dewis i fod yn rhan o fenter gyffrous sydd yn sefydlu Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru (OCGGC). Yn seiliedig ar fodel rhwydwaith gwasgaredig, mae'n bartneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Oriol Gelf Glynn Vivian Abertawe, MOSTYN, Llandudno, Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd, Oriol Davies y Drenewydd, Oriol Myrddin Caerfyrddin, Plas Glyn-y-Weddw Pwllheli, Canolfan Grefftau Rhuthun a Storiel Bangor.

Mae'r prosiect hwn yn ceisio gwneud casgliadau celf cenedlaethol yn fwy hygyrch i gymunedau yng Nghymru trwy gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer eu arddangos. Gyda buddsoddiad dros £300,000 yn Storiel a £420,000 yn Oriol Plas Glyn y Weddw wedi'i ddyrannu iddynt rhwng 2023 – 2025 bydd Storiel ac Oriol Plas Glyn y Weddw'n chwarae rhan hollbwysig yn y dyfodol wrth arddangos gweithiau celf i'r cyhoedd nad oedd ar gael yn flaenorol. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i wella systemau diogelwch ac amgylcheddol, gan sicrhau cadwraeth a mynediad at asedau diwylliannol arwyddocaol.




Adeilad Storiel, Bangor



Plas Glyn y Weddw

Prosiect hybu economi ymweld gynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri 2024/5, Cynllun Diwylliesiant, Cronfa Ffyniant Cyffredin

Prosiect hybu economi ymweld gynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri 2024/5, Cynllun Diwylliesiant, Cronfa Ffyniant Cyffredin. Ymgyrch hyrwyddo ar cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i annog ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri – Gwynedd ac Eryri Ni. Caiff cynnwys dwyieithog i'w darparu a reels i'w rhoi ar gyfryngau cymdeithas er mwyn ymateb i gyfres o heriau gan gynnwys rhai yn gysylltiedig gyda phroblemau parcio, effaith ar fywyd gwyllt ar amgylchedd a mwyniant diogel o'r arfordir.



Prosiectau 'Llewyrch o'r Llechi'

Mae'r prosiectau yn manteisio ar ddynodiad Safle Treftadaeth Byd Tirlun Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn gwella isadeiledd yr ardal ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr. Bydd yn arwain at fuddsoddiad sylweddol trwy arian Llywodraeth y DU a phartneriaid, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Chronfa Genedlaethol y Loteri Treftadaeth yn yr ardaloedd llechi gan gynnwys datblygu canolfan dreftadaeth a menter ym Methesda, uwchraddio Neuadd Ogwen, adfywio adeiladau gwag ym Mlaenau Ffestiniog, gwelliannau'r stryd fawr, arwyddo a dehongli, celf cyhoeddus, cysylltiadau gwell rhwng chwareli a'r trefi cyfagos, cynlluniau cadwraeth henebion ac ail ddatblygiad Amgueddfa Lechi Cymru ynghyd a gwelliannau i Barc Padarn.



Gwelliannau i Lôn Las Ogwen ger Abercegin (Port Penrhyn)



Dilwyn Llwyd, Neuadd Ogwen



Meleri Davies Partneriaeth Ogwen

Canolfan Gwirfoddoli Gymunedol Parc Padarn

Cydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Eryri a Pharc Padarn i ddatblygu canolfan wirfoddoli gymunedol. Bydd Cymdeithas Eryri yn rheoli rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau gwirfoddoli y gellir eu hysbysebu'n lleol i roi cyfle dysgu gwerthfawr a phleserus i bobl.

Funded by UK Government

PARC PADARN NEEDS YOU!

This project is a chance to get involved in practical volunteering to support the great work that is already being undertaken by volunteers and the council wardens as they deal with the challenges facing this increasingly popular area.

WHERE & WHEN?

- 30/05 - Repairing historic walls (Ysbyty Cwarel)
- 27/06 - Tree care (Cae Dolobarn)
- 25/07 - Footpath maintenance (Afon y Bala)
- 29/08 - Footpath maintenance (Ysbyty Cwarel)
- 26/09 - Footpath maintenance (Ysbyty Cwarel)

WHAT TO EXPECT?

- Hands-on conservation.
- Get outdoors with like-minded people.
- Learn about and discover places on your doorstep.
- Help nature and the local community!

DO YOU LOVE PARC PADARN?

HOW DO I GET INVOLVED?

Scan me!
Or go to our website (snowdonia-society.org.uk), click on the volunteer calendar and sign up.

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

LEVELLING UP

Wedi ei arannu gan Llywodraeth y DU

MAE EICH ANGEN CHI AR BARC PADARN!

Cyfle i gymryd rhan mewn gwirfoddoli ymarferol yw'r project hwn i gefnogi'r gwaith geirch sy'n cael ei wneud eisoes gan wirfoddolwyr ac wardensiaid y cyngor wrth iddynt nhw ddeolw'r a'i heriau sy'n wynebu'r ardal hon sy'n fwyfyr boblogaidd.

YM MHLE A PHRYD?

- 30/05 - Trwsio waliau hanesyddol (Ysbyty Cwarel)
- 27/06 - Gofio!r am goed (Cae Dolobarn)
- 25/07 - Cynnal llwybrau (Afon Bala)
- 29/08 - Cynnal llwybrau (Ysbyty Cwarel)
- 26/09 - Cynnal llwybrau (Ysbyty Cwarel)

BETH I'W DDISGWYL

- Cadwraeth ymarferol.
- Amser yn yr awyr agored i'w gyswrtu ffrwydysg eraill.
- Dysgu am leiriau lleol chi a gartolau amdanyn nhw.
- Helpu byd natur a'r gymuned leol!

YDYCH CHI'N CARU PARC PADARN?

SUT ALLAI GYMRVD RHAN?

Scanwch fi!
Neu ewch i'n gwefan (snowdonia-society.org.uk), clicwch ar y calendar gwirfoddoli ar arwyddwch.

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

FFYNIANT BRO



© Hawfrant, y Goren, Cioasec, Cymru
© Crown Copyright, Visit Wales

8. Manylion Cyswllt a Gwybodaeth Bellach

Rhagor o wybodaeth ar gael yma:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

Pennaeth Partneriaethau, Parc Cenedlaethol Eryri - <https://awdurdod.eryri.llyw.cymru/yr-awdurdod/partneriaethau/gwynedd-ac-eryri-2035/>

www.ymweldageryri.info/gwynedd-ac-eryri-cynaliadwy-ymwelwyr-economi-2035